**DOGFEN YMGYNGHORI LLYWODRAETH CYMRU: YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT CYMRU AR GYFER PRYFED PEILLIO - YMATEB GAN CYFOETH NATURIOL CYMRU**

*Ar 1 Ebrill, cyfunwyd gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru dan adain Cyfoeth Naturiol Cymru.*

*Ein diben yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac i'r dyfodol.*

*Byddwn yn gweithio dros gymunedau Cymru i sicrhau bod pobl a'u cartrefi'n cael eu hamddiffyn cymaint ag y bo modd rhag digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a llygredd. Byddwn yn darparu cyfleoedd i bobl ddysgu, defnyddio a chael budd o adnoddau naturiol Cymru.*

*Byddwn yn gweithio dros economi Cymru ac yn galluogi defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol er mwyn cynnal swyddi a menter. Byddwn yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac ystyried yr effaith ar yr amgylchedd wrth iddynt wneud penderfyniadau pwysig.*

*Byddwn yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn gweithio i wneud yr amgylchedd ac adnoddau naturiol yn fwy gwydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu arweiniad Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu cynllun gweithredu cyntaf y DU ar gyfer pryfed peillio a'i ymrwymiad i ymdrin â dirywiad ym mhoblogaethau pryfed peillio gwyllt a chadw. Mae'r galw am "bolisïau a llywodraethu cydgysylltiedig", "cynefinoedd gwell a mwy cysylltiedig", ennill "statws cadwraeth ffafriol ar gyfer ardaloedd gwarchodedig" a dull rheoli'r ecosystem o ymdrin â'r mater hwn yn cael eu croesawu. Mae'r Cynllun Gweithredu'n darparu cefndir defnyddiol ar gyfer y prif faterion ac ar gyfer effaith dirywiad pryfed peillio ar fuddiannau bioamrywiaeth ac amaethyddol, ac yn cynnig agenda ar gyfer gweithredu i gynorthwyo i leddfu'r problemau. Fodd bynnag, ni fydd y camau gweithredu hyn yn llwyr fynd i'r afael â'r dirywiad a welwyd dros y tri i bum degawd diwethaf. Mae angen dull mwy uchelgeisiol o reoli tir fferm a chefn gwlad ehangach er mwyn darparu tirweddau blodeuog "gwell a mwy cysylltiedig."

Er bod rheolaeth ystyriol o gynefinoedd trefol ac ystâd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhan a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, o gymorth mawr, mae darparu ardaloedd ehangach o gefn gwlad blodeuog yn hanfodol i unrhyw welliant amlwg yn statws a gwasgariad pryfed peillio gwyllt ac, i ryw raddau, pryfed peillio cadw. Mae'r cyfuniad dramatig o golli glaswelltir heb ei wella (91%) a rhostir (50-90%) yn y gorffennol a darnio ac ynysu cynefinoedd blodeuog sydd wedi goroesi wedi effeithio'n enbyd ar bryfed peillio. O ganlyniad, mae llawer o rywogaethau a fu unwaith yn gyffredin naill ai'n diflannu o Gymru neu'n encilio i dirweddau arfordirol sydd â gwell cysylltiad rhyngddynt ac sydd wedi goroesi gwelliannau amaethyddol. Mewn gwirionedd, nid yw'r dirwedd amaethyddol fugeiliol sydd mor amlwg yng nghefn gwlad Cymru yn dibynnu

llawer ar boblogaethau iach o bryfed peillio. Yn wir, mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi bod "61% [o ddefnydd tir amaethyddol] yn dir pori parhaol, gydag ychydig iawn o rywogaethau blodeuol arno i gynnal pryfed peillio". Wrth i ni ganolbwyntio mwy yn y dyfodol ar gynhyrchu mwy o fwyd ar gyfer poblogaethau byd-eang sy'n cynyddu, ac mewn hinsawdd sy'n newid, mae'n bosibl y bydd yn rhaid cael patrwm o symud tuag at gnydau âr neu ffermio cymysg, gydag angen cydredol am bryfed peillio. Dylai hon fod yn alwad glir i weithredu ar unwaith i ddiogelu a gwella poblogaethau o bryfed peillio.

Mae'r Cynllun Gweithredu'n pwysleisio pwysigrwydd Glastir i ddarpariaeth cynefinoedd blodeuog sydd â "llawer o opsiynau sy'n llesol i bryfed peillio". Fodd bynnag, dim ond ar 13% o dir amaethyddol y mae'r cynllun yn weithredol ar hyn o bryd – nid yw hyn wedi ei dargedu'n ddigonol ac mae'n rhy lleol i gael llawer o effaith. Mae opsiynau rheoli dan Glastir Sylfaenol braidd yn gyffredinol ac ar raddfa fechan ac mae rhoi diwedd ar ganllawiau rheoli penodol ar gyfer y gardwenynen feinlais *Bombus sylvarum* a'r gardwenynen lwydfrown *B. humilis* o fewn prif gadarnleoedd eu dosbarthiad wedi gwanhau effeithiolrwydd Glastir Uwch.

Mae hepgor cacwn o ganllawiau rheoli Glastir Uwch yn creu problem arall. Er mai cyfnod hedfan cymharol fyr fel oedolion sydd gan y mwyafrif o rywogaethau o bryfed peillio, mae cacwn wrthi'n chwilio am fwyd o fis Mawrth, (pan fydd y breninesau'n dod allan o'u gaeafgwsg i sefydlu nyth), hyd at ddiwedd Medi, pan fo'r genhedlaeth nesaf o freninesau'n paratoi ar gyfer gaeafgwsg. Mae'n hanfodol felly fod bwyd addas ar gael am gyfnod o saith mis.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n argymell rhaglen fwy uchelgeisiol o adfer cynefinoedd wedi ei seilio ar ddull rheoli'r ecosystem gyda rhagor o gynefinoedd blodeuog cysylltiedig mwy a gwell a fydd yn gorchuddio 10 i 15% o'r dirwedd, a hynny am gyfnodau estynedig er mwyn bodloni gofynion cacwn. Byddai safleoedd gwarchodedig megis SoDdGA (12% o arwynebedd Cymru) ac ACA a rheoli ystâd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru e.e. coetiroedd a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn gwneud cyfraniad mawr iawn tuag at y targed hwn, gyda Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC)/Safleoedd Bywyd Gwyllt a Gwarchodfeydd Natur cyrff anllywodraethol hefyd yn cyfrannu. Gallai Glastir a mentrau amaethyddol eraill gynnig yr arian a'r gefnogaeth i gyflawni canlyniadau o safbwynt ffermio a chefn gwlad ehangach.

Mae rhagor o sylwadau manwl ar Adran 4 '**Agenda ar gyfer gweithredu**' ac ar y Cynllun Gweithredu'n gyffredinol wedi eu nodi isod.

## AGENDA AR GYFER GWEITHREDU

Er bod y pedwar Canlyniad wedi eu cefnogi, mae'n annhebygol y bydd y Camau Gweithredu yn eu ffurf bresennol yn cynnig y canlyniadau a ddymunir.

### Maes Gweithredu 1: Hyrwyddo cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws tir ffermio

Y prif gyfrwng a nodir yn y Cynllun Gweithredu i ddarparu tir fferm blodeuog gwell a mwy cysylltiedig yw Glastir. Mae'r ganran isel bresennol o dir amaethyddol o fewn y cynllun a'r diffyg targedu yn lleihau'r effaith y bydd y cynllun yn ei chael ar adennill pryfed peillio. Mae opsiynau Glastir Sylfaenol braidd yn gyffredinol ac ar raddfa fechan, ac nid yw Pecynnau Rhanbarthol yn cynnwys y gardwenynen feinlais na'r gardwenynen lwydfrown (er bod cardwenynen y mwsogl *Bombus muscorum* wedi ei rhestru ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro ac Abertawe; mae'r gardwenynen goesgoch [*B. ruderarius*?] wedi ei rhestru ar gyfer Abertawe.) Er eu bod wedi eu cynnwys o fewn system sgorio Glastir Uwch, mae dod â chanllawiau rheoli penodol ar gyfer y gardwenynen feinlais a'r gardwenynen lwydfrown i ben yn gwanhau effeithiolrwydd y cynllun yn sylweddol. Roedd y canllawiau gwreiddiol yn cynnwys hau porfa meillion coch.

Mewn gwirionedd, mae posibilrwydd y bydd rhai o opsiynau rheoli Glastir yn achosi dirywiad yn ansawdd cynefinoedd ar gyfer pryfed peillio, gyda mewnbwn 'isel' o nitrogen ar laswelltiroedd wedi eu lled-wella yn creu porfa llai amrywiol a blodeuog.

Gallai prosiectau arddangos ar raddfa'r Ecosystem megis Menter Mynyddoedd Cambrian sydd â dull partneriaeth parod, sylfaen o dystiolaeth wyddonol a ffocws masnachol, gynnwys canolbwyntio ar wenyn mêl fel modd o dynnu ynghyd yr agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd o reoli tir. Darparwyd cynllun dolydd a choetiroedd hefyd gan Fenter Mynyddoedd Cambrian. Roedd hwn yn boblogaidd gyda thirfeddianwyr a gellid ei ddefnyddio fel model i fynd i'r afael â dirywiad pryfed peillio a glaswelltir blodeuog.

Mae cydweithio â Cyswllt Ffermio i hyrwyddo neges y pryfed peillio'n bwysig ond bydd angen ysgogiad (ariannol) er mwyn cael canlyniadau ar lawr gwlad.

Croesewir y cyfeiriad at ddiwygio'r PAC fel cyfrwng i leihau'r dirywiad yn niferoedd y pryfed peillio.

**Maes Gweithredu 2: Hyrwyddo cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig yn ehangach ar draws cefn gwlad**

Gan orchuddio 12% o arwynebedd tir Cymru, gall safleoedd gwarchodedig (Natura 2000 a rhwydwaith SoDdGA) wneud cyfraniad sylweddol i leihau dirywiad pryfed peillio a chynorthwyo i ddarparu cynefinoedd blodeuog â gwell cysylltiad rhyngddynt. Yn wir, y safleoedd hyn yn aml yw encilfa olaf llawer o'n rhywogaethau pryfed peillio prin. Fodd bynnag, ni chafodd yr un o'r ddau ddynodiad eu cynllunio gyda'r nod yma mewn golwg ac nid yw pob safle gwarchodedig yn darparu gofynion ecolegol manwl prif rywogaethau pryfed peillio. Fel yr awgrymwyd yn y Cynllun Gweithredu, mae llawer o safleoedd mewn cyflwr anffafriol ac mae angen adnoddau i sicrhau rheolaeth fwy ystyriol. Mae angen mynd ati ar frys hefyd i gyflymu rhaglen hysbysu glaswelltiroedd blodeuog sydd hyd yn hyn heb eu gwarchod ac sydd yn parhau i gael eu colli yn sgil esgeulustod neu welliant amaethyddol.

Heb adnoddau mwy digonol, mae'n annhebygol y bydd y broses Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth na rhwydwaith Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), nad yw'n gyflawn hyd yn hyn, yn gallu rhwystro colli cynefinoedd blodeuog a'r dirywiad yn niferoedd y pryfed peillio.

Mae Mapiau Cynefinoedd â Blaenoriaeth eisoes ar gael yn rhwydd ar gyfer y rhan fwyaf o gynefinoedd, gan gynnwys rhostiroedd a glaswelltiroedd blodeuog. Mae'r rhain yn nodi ardaloedd allweddol a'r posibiliadau ar gyfer adfer a gwell cysylltedd.

Croesewir cyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru i'r gwaith o reoli pryfed peillio ystâd goed Llywodraeth Cymru. Yn wir, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru gynt eisoes wedi bod yn gweithio gyda Gwarchod Gloÿnnod Byw i sicrhau rheolaeth fwy ystyriol o loÿnnod byw a gwyfynod coetiroedd. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o ymestyn y rheolaeth hon ar gyfer ehangu buddiannau pryfed peillio, o fewn yr ystâd goed ac yn ehangach e.e. mae'n bosibl y bydd tir sy'n cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru at ddibenion amddiffyn rhag llifogydd hefyd yn gallu cynnig cynefinoedd er lles pryfed peillio, pe ceid patrymau lladd gwair mwy ystyriol.

**Maes Gweithredu 3: Hyrwyddo cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig yn ein trefi, ein dinasoedd a'n hardaloedd datblygedig**

Croesewir camau gweithredu o'r fath oherwydd gellid dadlau y dylai fod yn haws darparu cynefinoedd blodeuog ar gyfer pryfed peillio mewn ardaloedd trefol o gymharu â chefn gwlad oherwydd bod dull rheoli uniongyrchol ar gael ar gyfer parciau, a mannau gwyrdd ac, yn aml, mae'r cyhoedd yn y trefi'n barod i dderbyn hyn. Fodd bynnag, efallai nad gwir yw'r awgrym y byddai hyn "yn rhad neu heb unrhyw gost". Gall addasu patrymau torri a lladd gwair gan adael rhai mannau heb eu torri fod yn ddrutach na thorri'r cyfan ar yr un pryd. Dylai canllawiau plannu

danlinellu pwysigrwydd rhywogaethau planhigion brodorol a phwysleisio’r problemau posibl sydd yn gysylltiedig â phlannu rhai anfrodorol gyda’u problemau ymledol cynhenid a materion cysylltiedig â chlefydau e.e. y ffwng *Phytophthora* sy’n gysylltiedig â llwyni addurnol.

Mae safleoedd tir llwyd yn aml yn lloches bwysig i bryfed peillio, a hynny mewn trefi ac yng nghefn gwlad fel ei gilydd, oherwydd bod y mannau hyn yn gallu cynnal porfeydd blodeuog os bydd y pridd, y ffynhonnell hadau a’r rheoli’n ffafriol. Dylid asesu pwysigrwydd safleoedd unigol i bryfed peillio cyn i dir o’r fath gael ei ail-ddatblygu.

Byddai’n ddefnyddiol tynnu sylw at y polisïau a’r camau gweithredu llesol i bryfed peillio y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgymryd â nhw ar ei hystâd weinyddol ei hun fel canllaw i arfer da.

**Maes Gweithredu 4: Cefnogi gweithredoedd y DU i hyrwyddo poblogaethau iach o bryfed peillio yng Nghymru**

Er mai ar wenyn mêl y mae’r gweithredu hwn yn canolbwyntio’n bennaf, dylid nodi bod yna ddefnydd cynyddol o boblogaethau cacwn cadw ar gyfer peillio cnydau’n fasnachol, a phryder cynyddol ynghylch cymysgu genetig gyda rhywogaethau brodorol a’r risg cysylltiedig o ledaenu clefydau.

Dylid ehangu’r paragraff byr ar ddefnydd plaladdwyr i gyfeirio at waharddiad diweddar yr UE ar neonicotinoidau arbennig.

**Maes Gweithredu 5: Gweithio i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio a chynnwys pobl Cymru yn y gwaith o’u rheoli**

Mae amlygu materion pryfed peillio drwy Fenter yr Eco-ysgolion yn ganmoladwy, gan fod rhoi gwybodaeth o’r fath i reolwyr tir y dyfodol yn hanfodol. Nodwyd y cais ar i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu’r prosiect ‘plannu ar gyfer bywyd gwyllt.’

Mae cynnwys ffermwyr drwy Gwlad a Cyswllt Ffermio’n hanfodol. Mae darparu cynefinoedd blodeuog sydd yn cael eu rheoli’n ystyriol ac sydd mewn tirweddau â gwell cysylltiad rhyngddynt yn hanfodol i statws a dosbarthiad pryfed peillio.

**Maes Gweithredu 6: Cysylltu polisïau Llywodraeth Cymru â’i gilydd i gynhyrchu camau gweithredu buddiol sy’n dda i bryfed peillio ac iechyd yr ecosystem**

Ni fydd modd mynd i’r afael â’r dirywiad mewn poblogaethau pryfed peillio oni fydd agwedd o bartneriaeth yn cael ei chreu rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, asiantaethau cadwraeth a chyrff anllywodraethol a’r gymuned ffermio. Bydd y fenter yn brawf pwysig o ddull rheoli’r ecosystem.

**Maes Gweithredu 7: Creu sylfaen o dystiolaeth i gefnogi gweithredoedd a fydd o les i bryfed peillio i’r dyfodol**

Mae angen pendant am ragor o wybodaeth am statws a thueddiadau rhywogaethau a phoblogaethau pryfed peillio, ac am eu dibyniaeth ar brif gynefinoedd blodeuog. Mae’n debyg y byddai’n well casglu’r wybodaeth ar lefel y DU neu Ewrop yn hytrach nag ar lefel Cymru gan y byddai ymchwil ac arolwg o’r fath yn debygol o fod yn gostus.

Bydd hefyd angen monitro a gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw gamau gweithredu a fydd yn deillio o’r Cynllun Gweithredu hwn.

**MÂN GYWIRIADAU/NEWIDIADAU I DESTUN Y CYNLLUN GWEITHREDU**

Fel pwynt cyffredinol, byddai’r Cynllun Gweithredu’n fwy eglur pe bai’r camau gweithredu a’r

wybodaeth am bryfed peillio gwyllt a chadw'n cael eu rhannu'n gyson i wahanol adrannau. Mae gormod o ddryswch ar hyn o bryd.

**Tystiolaeth o newid**
Yn hytrach na dweud bod "**gan Gymru'r amodau i gefnogi** poblogaethau iach o bryfed peillio gwyllt a chadw er lles pobl, economi ac amgylchedd Cymru," byddai dweud bod **Cymru'n cefnogi** poblogaethau iach o bryfed peillio gwyllt a chadw er lles pobl, economi ac amgylchedd Cymru" yn weledigaeth fwy priodol.

**Tudalen 1. Cyflwyniad**
Byddai'n werth crybwyll poblogaethau cacwn cadw i'w defnyddio mewn tai gwydr ar gyfer peillio cnydau megis tomatos.

**Tudalen 2. Beth sydd ei angen ar Bryfed Peillio**
Mae ar rai rhywogaethau, yn arbennig gwenyn, angen paill yn ogystal â neithdar. Mae cysgod yn bwysig, a hynny nid yn unig ar gyfer nythu e.e. gloÿnnod byw a gwyfynod.

Dylai'r testun ddarllen 'y bengaled' (*Centaurea nigra*) yn hytrach na'r 'bengaled fawr'. Enghreifftiau eraill i'w cynnwys yw pysen-y-ceirw (*Lotus corniculatus*) a meillion coch (*Trifolium pratense*).

**Tudalen 5. Ein gweledigaeth ar gyfer Pryfed peillio yng Nghymru** – gweler uchod.

**Tudalen 7. Deddf Yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig**
Nid oes unrhyw bryfed hofran wedi eu rhestru yn Adran 42.

**Tudalen 9. Pryfed peillio gwyllt**
Dylid egluro pam mae rhywogaethau mewndirol wedi eu colli.

**Tudalen 11. Ffermio dwys a'r symudiad tuag at ffermio ungnwd**
Byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhestr o'r opsiynau sy'n llesol i bryfed peillio yn Glastir.

**Tudalen 11. Newid cynefinoedd**
Dylid arall eirio'r frawddeg berthnasol o "Gall cynhyrchwyr mêl **ddibynnu** ar rug, ac mae mêl grug yn gynnyrch hynod boblogaidd o hyd." i "Gall cynhyrchwyr mêl **fod yn ddibynnol** ar rug, ac mae mêl grug yn gynnyrch hynod boblogaidd o hyd."

Dylid egluro pam mae rhostiroedd mewn cyflwr gwael – cyfeirier at ganlyniadau Erthygl 17 (2007 a 2012-13) a System Adrodd am Weithredu Bioamrywiaeth (2008).

Dylid egluro sut y gallai coetir gynnig gwell cyfleoedd ar gyfer pryfed peillio.

**Tudalen 11. Clefyd**
Dylid cyfeirio at ddogfennau amrywiol DEFRA/Llywodraeth Cymru e.e. 'Bee Health Evidence Plan (Mawrth 2013)', 'Gwenyn iach: Gwarchod a gwella iechyd gwenyn mêl yng Nghymru a Lloegr (Saesneg yn unig) (Mawrth 2009)', 'Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006' a Chylchlythyrau'r BeeBase Healthy Bees Plan (deuddeg hyd yn hyn, y diweddaraf yn Rhagfyr 2012).

Dylid newid 'gwenyn' i '**cacwn**' yn y frawddeg yma "Mae hi hefyd yn dod yn glir y gall llawer o blâu a phathogenau ledaenu o fewn a rhwng gwenyn gwyllt a gwenyn cadw (Mae hi hefyd yn dod yn glir y gall llawer o blâu a phathogenau ledaenu o fewn a rhwng **cacwn** gwyllt a **chacwn** cadw") - gweler Murray et al. 2013 Biol. Cons. 159: 269-276. Byddai'n werth ychwanegu bod Llywodraethau Cymru a'r DU yn ystyried sut i gyfyngu ar fewnforio a rhyddhau ar ddamwain rywogaethau o gacwn anfrodorol o Ewrop.

Dylid tynnu sylw at y ffaith mai dim ond at wenyn mêl y mae'r frawddeg ar golledion gaeaf yn cyfeirio, os bydd y Cynllun Gweithredu'n parhau i gyfuno gwybodaeth am bryfed peillio gwyllt

a chadw.

**Tudalen 12. Agrogemegau**
Angen cyfeirio at waharddiad 2 flynedd diweddar yr UE ar neonicotinoidau penodol.

O ran y frawddeg "…chwyn yn cael eu rheoli'n effeithiol" – Nodwch fod chwyn yn aml yn fwyd i bryfed peillio!

**Tudalen 12. Newid hinsawdd**
Bydd hafau cynnes, sych yn dda ar gyfer llawer o bryfed peillio; bydd hafau gwlyb yn her fawr.

A oes cyfeiriad ar gyfer dargyfeirio cyrens duon a'u pryfed peillio?

Nodwch y cyfnod hedfan 7 mis ar gyfer cacwn. Mae hyn yn golygu bod yr hinsawdd a llawer o ffactorau eraill yn effeithio arnynt.

**Tudalen 13. Pryfed peillio cadw**
Dylid cynnwys cyfeiriadau perthnasol i'r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) a'r Cynllun Gwenyn Iach (gweler uchod.)

**Tudalen 14. Ymchwil a Mentrau**
Dylid cynnwys dolenni i'r we ar gyfer y 'Status and Trends of European Pollinators' (STEP) a'r Fenter Pryfed Peillio (IPI). Dylai'r ddogfen gyfeirio at ffynonellau ariannu – yr UE a DEFRA.

Dylid cynnwys enghreifftiau gwell na'r tri a gynigwyd e.e. arolygon y gardwenynen feinlais gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru, gwaith yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn ar y gardwenynen feinlais a chyhoeddusrwydd, ac efallai Tir Gofal a Glastir.

**Tudalen 15. Canlyniad: Mae Cymru'n darparu cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig i gynnal ein pryfed peillio**
Mae'n annhebygol iawn y byddai rheoli cynefinoedd ar gyfer pryfed peillio yn effeithio'n wael ar "gynefinoedd pwysig eraill".

Dylid newid "gwyllt" i "cadw" yn llinell 1.

**Tudalen 16. Maes Gweithredu 1:**
Dylid rhestru opsiynau Glastir.

Mae angen eglurhad llawnach o fanteision diwygio'r PAC.

Ynglŷn â: hyfforddiant ar gyfer swyddogion prosiect Glastir – nodwch fod hyfforddiant Cacwn wedi ei ohirio dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Dylid aralleirio "ychwanegu meillion at borfeydd fel ffynhonnell neithdar" i "ychwanegu meillion **coch** at borfeydd fel ffynhonnell **paill** a neithdar".

Rydym yn argymell ailsefydlu opsiynau rheoli wedi eu targedu ar gyfer cacwn yn Glastir Uwch.

**Tudalen 16. Maes Gweithredu 2**
Mae ystadegyn Natura 2000 o 700,000 hectar yn cynnwys ardaloedd mawr o gynefinoedd morol a rhynglanwol.
Byddai'r ystadegau canlynol yn fwy priodol:
SoDdGA (ac eithrio rhynglanwol) = 219,303 hectar (tua 12% o Gymru).
Safleoedd N2K (ac eithrio morol a rhynglanwol) = 147,780 hectar (67% o gyfanswm y SoDdGA).

Nid yw safleoedd gwarchodedig yn cael eu rheoli'n bennaf ar gyfer pryfed peillio, ac felly y bydd pethau'n parhau yn achos y rhan fwyaf ohonynt. Dylid dileu'r cyfeiriad at fritheg y gors – nid yw'n bryf peillio hanfodol.

Mae mapio cynefinoedd o flaenoriaeth eisoes wedi ei gwblhau dan nawdd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**Tudalen 17. Maes Gweithredu 3**
Dylid aralleirio "Mae llawer o'r opsiynau er lles pryfed peillio" i "Mae llawer o anghenion ecolegol pryfed peillio".

Dylid cynnwys manylion Llywodraeth Cymru o "bolisïau presennol er lles pryfed peillio ar draws ein hystâd weinyddol".

Dylid cynnwys manylion o bolisi a chanllawiau TAN 5 mewn perthynas â phryfed peillio.

**Tudalen 18. Maes Gweithredu 4**
Dylid aralleirio "Byddwn yn monitro'r sefyllfa mewn perthynas â chyflwyno gwenyn estron at ddibenion peillio masnachol" i "Byddwn yn monitro'r sefyllfa mewn perthynas â chyflwyno **cacwn** estron at ddibenion peillio masnachol, a'r risg cysylltiedig o ledaenu clefydau".

Aneglur yw ystyr "ystyried unrhyw dystiolaeth newydd a gwaharddiadau a gyflwynir."

**Tudalen 19. Maes Gweithredu 7**
Y lle gorau i gasglu tystiolaeth yw ar lefel y DU neu Ewrop.

**Tudalen 20. Maes Gweithredu 7**
Ychydig o bryfed peillio allweddol sydd yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn Cynefinoedd nac yn Adran 42.

**Dr. Mike Howe**
**4 Mehefin 2013**


Dr. Mike Howe
Ecolegydd Creaduriaid Di-asgwrncefn / Invertebrate Ecologist
Y Grŵp Ecosystemau Daearol / Terrestrial Ecosystems Group
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Ffôn/Tel:01248 387258
E-bost/E-mail: michael.howe@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk /

Gwefan / Website: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk / www.naturalresourceswales.gov.uk